Y cerddor oedd yn gwrthod tawelu

(dyfalbarhad / gwerthfawrogi / penderfyniad)

Deng mlwydd oed oedd Verdi pan symudodd o'i bentref genedigol Roncole, i'r ysgol yn Busseto yn yr Eidal. Cafodd lety gan ŵr busnes o'r enw Antonio Barezzi. "Heno," meddai wrth Verdi, "mae'r gerddorfa leol yn dod i chwarae ar yr aelwyd ac rwyf am i ti ddod efo mi i wrando arnyn nhw." Drwy'r dydd bu Verdi'n meddwl am y gerddorfa. Rhedodd adref o'r ysgol nerth ei draed. Llyncodd ei de ac aeth gyda Barezzi i'r ystafell gerdd. Roedd wrth ei fodd a phenderfynodd ei fod am gyfansoddi cerddoriaeth. Bu Barezzi'n gefn mawr iddo. Roedd hyd yn oed yn gadael iddo ymarfer ar y piano yn yr ystafell gerdd. Pan oedd yn bedair ar ddeg oed roedd wedi cyfansoddi agorawd ac fe'i perfformiwyd gan y gerddorfa leol ar aelwyd Barezzi.

Pan oedd yn 18 oed cafodd ei siomi'n ddirfawr – cafodd ei wrthod i fynd i Ysgol Gerdd Milan. Roedd hon yn siom fawr iddo ac yntau wedi rhoi ei fryd ar fod yn gerddor. Am ddyddiau bu'n cerdded o gwmpas y pentref â'i ben yn ei blu. Doedd ganddo ddim awydd cyfansoddi, dim awydd chwarae'r piano na hyd yn oed fwyta pryd o fwyd. Roedd y byd i gyd yn edrych yn dywyll a dialgar. Aeth i weld ei gyfaill Barezzi a chynigiodd hwnnw dalu o'i boced ei hun am ei addysg mewn ysgol breifat ym Milan. Aeth ymlaen o nerth i nerth.

Pan oedd yn 37 oed roedd wedi cyfansoddi opera, *Rigoletto*, a ddaeth ag enwogrwydd mawr iddo. Ar gynffon yr opera hon cyfansoddodd ddwy arall, sef *Il Travatore* a *La Traviata*. Mae *Rigoletto* yn adrodd stori am berthynas yn y llys a'i feistr, tra mae *Il Travatore* yn dweud hanes mab i uchelwr sy'n cael ei ddwyn i fyny gan sipsi. Ar y cychwyn doedd ei opera *La Traviata* ddim yn llwyddiannus, ond ar ôl dau neu dri perfformiad roedd y bobl yn awchu am glywed mwy. Ar ôl llwyddiant y tair opera gyntaf aeth Verdi ymlaen i gyfansoddi rhai eraill – 26 i gyd ac yn eu plith *Don Carlos* – opera am fab Brenin Philip II o Sbaen – ac *Aida* gyda'i stori o'r Aifft.

Mae pawb sy'n hoff o opera yn gwerthfawrogi gwaith Verdi am nifer o resymau. Byddai bob amser yn cyfansoddi cerddoriaeth hyfryd ar gyfer y llais. Roedd hefyd, yn amlwg, yn deall pobl, sut yr oedden nhw'n adweithio ac yn dod i berthynas â'i gilydd. Mae'n

siŵr fod Verdi wedi dysgu hyn o'r bywyd caled a gafodd pan oedd yn tyfu i fyny. Ond yn fwy na dim gwyddai am dechneg y theatr a thrwy ei gerddoriaeth hudolus roedd y cymeriadau'n dod yn fyw a chredadwy ar y llwyfan.

Pan oedd wedi cyrraedd ei saith deg mlwydd oed, rhoddodd fraw i bawb. Cyfansoddodd *Othello*, opera wedi ei sylfaenu ar ddrama Shakespeare o'r un enw. Perfformiwyd yr opera yn La Scala, y tŷ opera enwog ym Milan. Ar ôl y perfformiad a Verdi'n gadael y tŷ opera dyma'r dorf yn tynnu'r ceffylau'n rhydd o'r cerbyd a llusgo'r cerbyd eu hunain yr holl ffordd i'r gwesty. Syrfdanwyd pawb, ac yntau ar drothwy ei bedwar ugain oed, pan gyfansoddodd *Falstaff*, opera arall wedi ei sylfaenu ar waith Shakespeare.

Adnod: "Canaf gân newydd i ti, O Dduw, canaf gyda'r offeryn dectant i ti." Salm 144:9

Gweddi: O Dduw, pan fydda i'n methu gweld pethau'n glir, rho i mi dy oleuni di. Amen.

Trafod:

- Sut fyddech chi'n disgrifio bywyd Verdi pan oedd yn 18 oed?
- Beth, yn eich barn chi, ydi gwerth gwrando ar operâu y dyddiau hyn?